GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Llawdriniaeth Cymhorthion Clyw Angoredig yn yr Asgwrn**

**Cyngor Rhyddhau**

---

**Llawdriniaeth Cymhorthion Clyw Angoredig yn yr Asgwrn (BAHA):**
Golygai'r llawdriniaeth cymhorthion clyw angoredig yn yr asgwrn (BAHA) gosod sgriw i esgyrn y benglog er mwyn cynnal dirgryniadau sain i'r glust fewnol. Felly, gall y dechnoleg hon osgoi annormaleddau o fewn y glust allanol/canol er mwyn gwella'r clyw.

**Y llawdriniaeth:**
Gellir perfformio'r llawdriniaeth dan:
- anesthetig lleol (chwistrelliad i wneud yr ardal yn ddideimlad)
- anesthetig lleol a tHawelydd (chwistrelliad i'r wythïen i wneud i chi deimlo'n gysglyd)
- anesthetig cyffredinol (rhoddir meddyginiaeth i'ch rhoi i chi gysgu)

Bydd ardal ar ochr eich pen yn cael ei heillio yn ystod y llawdriniaeth. Ar ôl llawdriniaeth, bydd clwyf bach ar groen y pen a fydd yn cynnwys pwythau y gellir eu toddi (pwythau nad oes angen eu tynnu). Bydd cap gwella plastig yn bresennol. Mae'r cap hwn wedi'i chlipio ar y sgriw metel a fewnosodir i esgyrn y benglog. O dan y cap plastig, wrth ymyl croen y pen, mae rhwymiad sy'n hyrwyddo gwella clwyf.

**Gofal wedi'r llawdriniaeth:**
Mae'n bwysig eich bod yn cadw'r glust yn sych ar ôl y llawdriniaeth a chewch chi gwrs 1 wythnos o wrthfiotigau er mwyn atal haint. Dylai'r cap iachau plastig aros yn ei le am 6 wythnos.
Pe bai'r clwyf yn dechrau rhyddhau crawn neu droi'n goch/lidiog, gall haint fod yn bresennol. Cysylltwch â'r ystafell driniaeth ENT neu ward D5E i drefnu asesiad brys (mae rhifau ffôn cyswllt ar y dudalen nesaf).
Yn y digwyddiad prin fod y sgriw/gosodyn yn dod yn rhydd, dylech gysylltu â'r ystafell driniaeth ENT o fewn oriau swyddfa i gael cyngor.

**Atodiad cymorth clyw:**
Fel rheol, nid yw'r prosesydd sain (sy'n gysylltiedig â'r sgriw yn esgyrn y benglog) yn cael ei osod nes hyd at 6 wythnos ar ôl llawdriniaeth. Mae hyn er mwyn caniatáu amser i esgyrn y benglog gwau'n dynn o gwmpas y sgriw metel cyn i unrhyw bwysau/gwasgedd cael ei osod arno.

**Cyfnod adfer/poen:**
Mae poen ac anghysur yn tueddu i fod yn ysgafn ac fel arfer mae'n gwella o fewn ychydig ddyddiau. Byddwch yn cael cyngor ar leddfu poen cyn i'ch nyrs eich rhyddhau. Mae'r rhan fwyaf o gleifion angen 2 wythnos i ffwrdd o'r gwaith er mwyn dodo dros y llawdriniaeth. Os bydd cur pen anarferol/difrifol, dylech fynychu'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.

**Ôl-driniaeth:**
Fe ddylech chi gael eich gweld yn yr ystafell driniaeth clinig claf allanol/ENT 1 wythnos wedi’r llawdriniaeth. Os na fyddwch chi'n derbyn yr apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa apwyntiadau cleifion allanol ar 01495 765055 neu ystafell driniaeth ENT ar 01633 234018.

**Nofio:**
Gallwch fynd i nofio unwaith y bydd y clwyf wedi gwella'n llawn (gall eich ymgynghorydd eich cynghori ynglŷn â hyn). Fodd bynnag, nid yw'r prosesydd sain yn dâl dŵr felly dylid ei dynnu cyn mynd i mewn i ddŵr.

**Sgan MRI:**
Yn dilyn gosod y BAHA, gallwch chi gael sgan MRI os oes angen. Fodd bynnag, dylech adael i'r radiograffydd wybod bod gennych chi BAHA a symud eich prosesydd sain cyn mynd i mewn i'r ystafell sganio MRI.

**Gofal hir dymor:**
Unwaith mae e’ wedi gwella’n llwyr, bydd angen glanhau'r BAHA bob dydd gyda brwsh arbennig.

**<u>GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG</u>**

Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion): Uned Asesu Lawfeddygol C0 ar 01633 493926 .

**<u>Mewn achos brys, ewch i’ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.</u>**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”**